



Bodlondeb
Conwy
LL32 8DU
(01492) 574000
Cyf/Ref: CCBC-040259

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
(Gwahardd Aros - Cartrefi Modur a Charafanau) (Ffordd Benarth, Conwy)
Gorchymyn (Arbrofol) 2021

Ar 19 Gorffennaf 2021 gwnaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy y Gorchymyn uchod dan adran 9 a 10 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a'r holl bwerau eraill y maent yn eu galluogi. Effaith y Gorchymyn pan ddaw i rym ar 1 Awst 2021 fydd gwahardd aros gan unrhyw cartrefi modur a charafanau ar unrhyw adeg ar y darn o ffordd a nodir yn yr Atodlen isod.

Gellir archwilio copi o'r Gorchymyn, ynghyd â chynllun yn dangos y darn ffordd y mae'r Gorchymyn yn ymwneud ag ef, a datganiad o resymau'r Cyngor dros wneud y Gorchymyn ar wefan y Cyngor. Gallwch wneud cais am ddogfennau papur trwy ffonio 01492 575337.

Dylai unrhyw un sydd am wneud sylw, p'un ai i wrthwynebu neu gefnogi'r Gorchymyn cyn iddo gael ei wneud yn barhaol, wneud hynny mewn ysgrifen gan nodi ar ba sail y maent yn cael eu gwneud, o fewn 6 mis i'r Gorchymyn Arbrofol dod i rym at yr Adran Draffig, yr Amgylchedd Ffyrdd a Chyfleusterau, Blwch Post 1 Conwy LL30 9GN neu at traffig@conwy.gov.uk.

Os ydych am gwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaeth ynddo ar y sail nad yw o fewn y pwerau a roddir gan Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, gallwch wneud cais i'r Uchel Lys i'r perwyl hwn o fewn chwe wythnos o ddyddiad y rhybudd hwn.

Atodlen

Benarth Road Conwy	Ochr ddeheuol: O bwynt 12 metr i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â Ffordd Llanrwst at Benarth Lodge, am 260 metr.
-----------------------	---

Dyddiedig: 22 Gorffennaf 2021

Rhun ap Gareth
Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu